
Adroddiad Blwyddyn 2
Cyfeirnod y cynllun 0010362023

Profi




Menter
Gorllewin Sir Gâr

CRONFA
GYMUNEDOL
COMMUNITY
FUND

# Adroddiad Blwyddyn 2 (Ionawr – Ragfyr 2021) Cynllun Profi

## Stori ein prosiect eleni

Gyda chefnogaeth Cronfa Gymunedol y Loteri rydym wedi parhau i addasu yn ystod blwyddyn heriol i bobl ifanc gan gefnogi 643 o bobl ifanc yn ystod y flwyddyn. Yr ydym wedi trafod yn gyson gyda phobl ifanc, ysgolion a phartneriaid sut maent am dderbyn cymorth a mewnbwn cynllun Profi. Ar dderbyn adborth, rydym wedi addasu i gwrdd gyda'r gofynion yma er mwyn sicrhau bod disgyblion yn derbyn cyngor ar sut i wella eu sgiliau byd gwaith wrth ddysgu o bell. Rydym wedi parhau i fanteisio ar fynychu nifer o sesiynau hyfforddi o bell, cwrdd â nifer o'n partneriaid ar lein yn ogystal â chyflwyno'r cynllun i rwydweithiau perthnasol. Ers Hydref 2020, yr ydym wedi sicrhau cyllid ychwanegol gan Gronfa Leader Cyngor Sir Gâr ac mae'r cyllid ychwanegol wedi ein caniatáu i ni ddatblygu elfennau newydd i'r cynllun megis datblygu cwis sgiliau interactif a chreu 6 ffilm fer. Y bwriad yw addysgu pobl ifanc am y cyfleoedd sydd ar gael o fewn nifer o sectorau gwahanol yn ein cymunedau ac annog i aros neu symud yn ôl i'r ardal yn dilyn cyfnod yn y coleg neu brifysgol. Penodwyd Swyddog Digidol ychwanegol i'r Tîm ers Hydref 2021 yn rhan o gynllun Kickstart.

## Sut rydym wedi addasu'r cynllun

Ar gais ysgolion a disgyblion, rydym wedi creu tudalen Instagram i gynllun Profi a rhannu 8 newyddlen ar fformat Sway. Mae'r newyddlen wedi cael ei rhannu gyda disgyblion yn ystod gwersi cofrestru ac wedi anfon yn uniongyrchol i e-byst disgyblion a oedd yn hunan ynysu ar y pryd.





Cafodd cynnwys y sesiynau rhithiol yma eu gwylio 1,380 gwaith gydag adborth positif gan ysgolion i'r cynnwys fel y nodir yn yr adran adborth am y cynllun.


## Sesiynau Byw

Yn dilyn y cyfnod clo ac adeg asesiadau ar gyfer graddau TGAU a Lefel A, mae wedi bod yn braf i ni allu addasu cynnwys ein sesiynau a chynnig sesiynau byw dros Teams i ysgolion. Fel tîm i ni wedi cyflwyno sesiynau i rannu cyngor creu CV a llythyr cyflwyno ynghyd â sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith i ddisgyblion dros Teams yn annog nhw i fanteisio ar eu sgiliau Cymraeg fel sgil byd gwaith a fydd yn rhoi mantais iddynt ar gyfer eu gyrfa, ynghyd â chynnig ffug cyfweliadau a beirniadu Her Menter y BAG Cymraeg.

I ni wedi bod yn rhan o raglen ffug cyfweliadau sydd yn cael eu trefnu gan Yrfa Cymru yn flynyddol, ond ers Mawrth 2020 nid yw wedi bod yn bosib cynnig cyfweliadau hwyneb i wyneb yn rhan o'r rhaglen yma. Gwnaeth un ysgol flaengar sef Ysgol Gyfun Emlyn ofyn i ni weithio'n arloesol a chynnal 20 ffug cyfweliad dros Teams. Ar ôl treiali'r broses yn fewnol gwnaethom drefnu ffug cyfweliadau ac anfonwyd ffurflen adborth yn nodi beth roedd y disgyblion wedi gwneud yn dda ynghyd â chyngor ac adnoddau ar sut i wella ar gyfer cyfweliadau yn y dyfodol. Gan gynnig y cyfweliad cyntaf gyda chamera bant a chynnig ail gyfweliad iddynt ar ôl derbyn adborth cadarnhaol i ymuno gyda chamera er mwyn bod y disgyblion yn cael cyfle i wella eu sgiliau. Yn ogystal, cafodd y ffug cyfweliadau eu recordio ac anfon i ddisgyblion er mwyn hwyluso'r broses o hunan asesu. Mae'r adborth i'r broses yma wedi bod yn bositif iawn.

Yn ychwanegol i'r rhaglen ffug cyfweliadau, gwnaethom feirniadu Her Menter Bagloriaeth Cymru Blwyddyn 13 Ysgol Gyfun Emlyn gan ymuno gyda 36 disgybl dros Teams i wrando ar sut roeddent wedi datblygu syniadau a chyflwyno cynllun Her a Menter. Gwnaethom gwblhau ffurflenni adborth ar beth roeddent wedi eu gwneud yn dda a sut gellir gwella ar eu cyflwyniadau er mwyn datblygu eu sgiliau byd gwaith.



## Sesiwn paratoi ar gyfer Ffug Cyfweliadau:

Er mwyn galluogi disgyblion i baratoi a gwneud y gorau o'r cyfle o ffug cyfweliadau, trafodwyd gydag Ysgol Bro Pedr a Gyrfa Cymru'r manteision o greu sesiwn paratoi. O ganlyniad, cyflwynwyd peilot yn Rhagfyr 2021 i gynorthwyo disgyblion Bl 11 Ysgol Bro Pedr i baratoi ar gyfer eu ffug cyfweliadau. Cafodd cynnwys y sesiwn sway ei wylio 102 o weithiau yn dilyn y sesiwn.  Dyma ddolen i'r cynnwys:



Cynllun Profi Programme Sesiwn 7 | Session 7

Diolch am y cyfle i ni rannu adnoddau gyda thi i ddatblygu dy sgiliau byd gwaith. Rydym yma i dy gynorthwyo gydag unrhyw elfen o fyd gwaith sy'n amrywio o lunio CV, ysgrifennu llythyr cyflwyno...

Ewch i'r Sway yma | Go to this Sway


Yn dilyn y sesiwn paratoi cynigwyd ffug cyfweliad i bob disgybl blwyddyn 11 gan gynnig adborth cadarnhaol ar berfformiad unigolion yn ystod y sesiwn. Gwnaeth tîm Profi gyfweld gyda 19 o ddisgyblion Ysgol Bro Pedr yn ystod Rhagfyr 2021. Cafodd y cyfweliadau yma eu recordio ar blatfform Teams fel bod y disgyblion yn gallu hunan asesu eu perfformiad. Yn ogystal, anfonwyd ffurflen adborth yn nodi beth roedd y disgyblion wedi eu gwneud yn dda ynghyd â chyngor ac adnoddau ar sut i wella ar gyfer cyfweliadau yn y dyfodol.

## Sesiynau creu pwrpas a strwythur CV




I ni wedi manteisio ar y cyfle i gyflwyno sesiynau byw dros Teams gan gyflwyno Sesiynau CV i 221 o ddisgyblion. Gwnaeth y disgyblion ddarganfod pwrpas a strwythur CV ac roedd yn gyfle i ni lansio ein clip fideo CV a fydd yn rhan o'r wefan newydd a oedd wedi ei lleisio gan gyn disgybl Ysgol Bro Pedr.

Cafwyd cyfle i dreiali gwis sgiliau rhyngweithiol am y tro cyntaf hefyd. Bum yn ffodus i allu gwahodd Rheolydd Adnoddau Dynol Asiantaeth Tai Barcud a Rheolydd Adnoddau Dynol cwmni Antur Cymru i ymuno gyda ni ar Teams ar gyfer sesiwn holi ac ateb ar ddiwedd y sesiwn. Rhoddwyd cyfle i'r disgyblion i nodi eu barn am y sesiynau a'r holiadur ar-lein. Mae'r adborth wedi eu cynnwys o fewn yr adroddiad yma.






Dyma ddolen i esiampl o gyflwyniad sesiwn CV.



## Ymwybyddiaeth Iaith a hyrwyddo sgiliau Cymraeg ar gyfer y byd gwaith

I ni wedi addasu tipyn o gynnwys ein sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith er mwyn cyflwyno dros blatfform Teams. Cyflwynwyd sesiwn ymwybyddiaeth iaith i 210 o ddisgyblion yn ystod sesiynau byw dros Teams. Pwrpas y sesiynau ydi cyflwyno manteision o'r iaith Gymraeg i ddisgyblion ar gyfer bywyd cymdeithasol ynghyd â rhannu manteision o'r iaith Gymraeg fel sgil byd gwaith defnyddiol a fydd yn agor drysau i wahanol yrfaoedd. Gwnaeth rhai cyn disgyblion greu clip byr i ni yn nodi ei dewis o yrfa a sut mae'r Gymraeg wedi bod o fudd iddynt ynghyd â chyflwyno tips ar gyfer sut i wella sgiliau Cymraeg. Mae'r cyfle i gymryd rhan mewn cwis ar blatfform Kahoot ar ddiwedd y sesiynau yn gyfle i ddisgyblion i arddangos beth y maent wedi dysgu o'r cynnwys. Dyma'r ddolen i esiampl o sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith.









### Ymwybyddiaeth Iaith


Yn ystod y sesiwn yma, rydym am ffocysu ar yr iaith Gymraeg. Byddwn yn sôn am hanes yr iaith, sut mae wedi esblygu i fod yn rhan annatod o ein bywydau a sut gellir bod o fantais i ti o fewn...

Ewch i'r Sway yma | Go to this Sway


Yn ogystal â sesiynau byw, mae 120 wedi darllen Newyddlen Sway sy'n cynnwys manteision Sgiliau Cymraeg ar gyfer y byd gwaith. Gwnaeth y tîm hefyd greu cynnwys digidol i hyrwyddo sgiliau dwyieithog, gyda fideo ar sgiliau dwyieithog yn cyrraedd 271 ar Facebook, 201 ar Instagram a derbyn 208 'impressions' ar Drydar. Gwnaeth post ar nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr hefyd gyrraedd 1,700 ar Facebook a 146 impressions ar Drydar, gan gyrraedd 1,830 ychwanegol ar Instagram gyda 339 yn hoffi'r post. Rhannwyd post yn cyfeirio at niferoedd o siaradwyr Cymraeg ar lefel Cymru ar ddiwrnod Shwdmae Sumae gan gyrraedd 775 ar Facebook, 656 ar Instagram a derbyn 295 'impression' ar Drydar.








Byddwn yn parhau i gyflwyno sesiynau byw dros Teams tan fod rheolau yn caniatáu i ni ymweld ag Ysgolion i gyflwyno'n fyw o fewn y dosbarth. Cafodd pobl ifanc y cyfle i rannu eu barn ar gynnwys y sesiynau ar ffurflen adborth ar fformat holiadur surveyhero. Mae crynodeb o'r ymateb o fewn yr adran adborth ar y cynllun.



## Tudalen Instagram @cynllunprofi


Er mwyn gallu parhau i gynnig cymorth i ddisgyblion dros gyfnod gwyliau haf ac i rai sydd yn gorffen eu taith fel disgybl ysgol i ni wedi creu tudalen Instagram gan rhannu tair post yr wythnos er mwyn cynorthwyo pobl ifanc i wella eu sgiliau ar gyfer y byd gwaith. Dyma flas o'r cynnwys:




Ers lansio'r dudalen Instagram ar y 12fed o Ebrill, mae'r cynnwys wedi derbyn 701 o 'views' ar ein fideos sy'n rhannu cyngor amrywiol ar sut i ddatblygu sgiliau byd gwaith. Ar hyn o bryd mae gyda ni 196 o ddilynwyr. Rydym dal yn y dyddiau cynnar o hyrwyddo ein presenoldeb ar-lein, ond gobeithio cryfhau ac integreiddio hyn wrth i ni barhau gydag ein datblygiadau gyda'r cwis a'r wefan. Cafodd deunydd digidol cynllun Profi hefyd ei rannu ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol Menter Gorllewin Sir Gâr gan gyrraedd 8,765 o bobl ar Facebook gyda 665 yn gwylio'r cynnwys a 1,128 yn hoffi. Ar Drydar, wnaethom derbyn 9,502 o 'impressions' ychwanegol a hefyd cyrraedd 6,968 ar Instagram Menter Gorllewin Sir Gar gyda 348 yn gwylio ein fideos a 452 yn hoffi y cynnwys.

## Adnoddau Cynllun Profi

Mae'r ddolen i adnoddau cynllun Profi wedi ei greu ar Linktree o fewn bio y tudalen instagram wedi derbyn adborth bositif iawn, gyda 103 wedi edrych ar y cynnwys ers sefydlu canol Tachwedd 2021. Dyma'r ddolen i'r cynnwys:




## Dewislen Profi


Gweler rhestr o adnoddau Cynllun Profi sydd wedi ei datblygu i gynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu sgiliau byd gwaith.



## Adnoddau digidol

Mae'r cyfres o 27 o fideos dwyieithog gyda tips sgiliau byd gwaith wedi cael eu gwylio 1,449 o weithiau ar YouTube, a mae'r cyfres Saesneg wedi cael eu gwylio 842 o weithiau.

**Dyma flas o'r clipiau fideo wedi animeiddio gyda dolen i'w gwylio ar youtube–**
















Yn ogystal mae 11 clip fideo yn seiliedig ar y sgiliau byd gwaith wedi ei greu. Bydd yr adnoddau yma ar wefan Cynllun Profi yn adran canlyniadau'r cwis sgiliau sydd wedi ei ariannu gan Gynllun Leader a weinyddir gan Gyngor Sir Gâr.

## Datblygiad gwefan Profi

I ni’n parhau i gydweithio’n agos gydag Osian o gwmni Moilin ac wedi cael nifer o gyfarfodydd rhithiol i ddatblygu prototeip y wefan a phrototeip cwis sgiliau rhyngweithiol. Mae clip fideo i greu CV wedi ei ddatblygu a lleisio gan berson ifanc a wnaeth wirfoddoli i ymgymryd â’r dasg pan soniwyd am y cyfle yn ystod sesiwn grŵp ffocws Ysgol Bro Pedr.

## Grwpiau Ffocws a sut i ni wedi cynnwys pobl a’r gwahaniaeth i ni’n eu wneud

Yn ystod y cyfnod, rydym wedi cynnal 10 grŵp ffocws rhithiol i ddatblygu ein cwis interactif. Fe fu Ysgol Bro Pedr, Ysgol Bro Myrddin, tri grŵp o Ysgol Bro Teifi, Fforwm Ieuenctid Menter Gorllewin Sir Gâr a Menter Dinefwr, a Choleg Sir Gâr yn rhan o’r broses gyda 230 o bobl ifanc wedi ymuno i gyfrannu eu barn a chynnig adborth manwl ar agweddau gwahanol o brototeip cyntaf y cwis. Mae'r adborth yn cynnwys barn ar gynnwys prototeip y wefan ac agweddau megis geiriad y cwestiynau, iaith ac arddull cwestiynau. Hyd yn hyn, mae ein hadborth wedi bod yn gadarnhaol dros ben ac i gynnwys ond rhai:

> “Dw i’n hoffi'r delweddau i’r cwestiwn yma gan ei fod yn ifanc ac yn wahanol. Dw i heb weld y ffordd yma o gyflwyno cwestiwn mewn cwis o’r blaen”.

> “Dw i’n hoffi ei fod yn weledol - mae hynny yn apelio mwy. Bydd plant yn uniaethu gydag ef”.

> “Rwy’n hoff o’r cwestiynau graddfa sydd yn y cwis. Mae’n fodern ac yn greadigol”


> “Mae’r lluniau yma yn dda ar gyfer dewis ateb.. Rwy’n gallu uniaethu gyda’r llun ac mae’r cwestiwn yn gweithio’n dda’.


Mae'r adborth yr ydym wedi derbyn gan ddisgyblion hyd yn hyn yn ddibynadwy ac o drawstoriad da ac eang. Mae ein pwll mawr o gwestiynau (sydd yn gynnwys 80 o gwestiynau i gyd) yn barod ar gyfer rhannu gyda'n datblygwr cwis sef Moilin, er mwyn troi’r cwestiynau i mewn i gwis interactif. Hefyd yn ystod y cyfnod diwethaf, mae’r ymchwil ar gwisiau helaeth wedi ein hysbrydoli i greu mwy nag un cwis yn hytrach na’ ddatblygu cwis unigol o ddeutu 30 o gwestiynau. Ein nod yw creu cyfres o 5 o gwisiau byr – gyda 12 cwestiwn ym mhob cwis. Mae hyn yn rhoi opsiwn i'n cynulleidfa darged i gwblhau un cwis, neu ddatblygu ar eu hatebion a chyflawni mwy nag un. Rydym yn teimlo gyda’r ffordd yma, y bydd y bobl ifanc yn ateb yn fwy cywir a manwl gyda llai o gwestiynau, gan obeithio rhoi canlyniad mwy dibynadwy iddynt ar eu sgiliau byd gwaith.

Rydym hefyd wedi penderfynu ein bod yn mynd i ddatblygu adran canlyniadau a fydd yn cynnwys adroddiad o berfformiad yr unigolyn a'i arddangos mewn fformat CV. Rydym yn teimlo bod cyflwyno'r data yn y fformat hwn yn effeithiol gan ei bod yn cyd-fynd a thema Profi gan gynnwys cynnig cymorth ar ysgrifennu CV. Rydym mewn trafodaeth gydag Osian o gwmni Moilin ar sut i ddatblygu'r adran canlyniadau. Mae yna ymchwil wedi bod hefyd ar ddyluniad ac edrychiad y cwis ac mae portffolio manwl wedi ei greu i'w rannu gyda Moilin er mwyn dangos y math o ddyluniad modern ac ifanc yr ydym eisiau ar gyfer ein cwis. Mae yna ddolen o brototeip un o'r cwis o fewn cyflwyniad islaw i Benaethiaid Ysgolion Sir Gâr.

Rydym wedi creu amrywiaeth o gwestiynau drwy ddefnyddio cwestiynau lluniau, slider bar, a chwestiynau aml-ddewis, ond i enwi rhai. Rydym wedi gwneud hyn er mwyn sicrhau bod y cwis yn addas ar gyfer trawstoriad o oed, gallu, a phersonoliaeth wahanol. Rydym yn ystod y cyfnod wedi gweithio'n agos iawn gydag Osian o gwmni Moilin sydd wedi datblygu prototeip cyntaf y cwis i ni. O'r ddolen uchod, fe welir yn ein prototeip bod adran canlyniadau i'r cwis sydd yn dangos y sgôr o bob sgil. Rydym yn teimlo'n gyffrous am y datblygiadau a'r ffordd yr ydym wedi annog pobl ifanc i rannu adborth gonest a manwl am y prototeip. Bydd yr adborth yma yn ein galluogi i ddatblygu gwefan interactif ac apelgar i bobl ifanc i'w cynorthwyo i ddatblygu sgiliau byd gwaith.

## Dyma flas ar ymateb y bobl ifanc i brototeip y wefan:



## Cyfarfodydd a chyfleoedd i Rwydweithio

Cafwyd cyfanswm o 114 o gyfarfodydd yn ystod Blwyddyn 2 (2021) i rannu ymwybyddiaeth am y cynllun a thrafod potensial i gydweithio gyda nifer o bartneriaid. Mae Atodai A yn nodi'r sefydliadau yr ydym wedi hyrwyddo a thrafod cyd weithio gyda. Yn ogystal â chyfarfodydd, yr ydym wedi ymuno a 29 o gyfleoedd i rwydweithiau er mwyn cydweithio a datblygu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc yr ardal. Nodir y cyfleoedd i rwydweithio o fewn Atodiad B.

## Cyflwyniadau

I ni wedi manteisio ar y cyfle i hyrwyddo'r cynllun i fusnesau, sefydliadau a phobl ifanc, ynghyd â diweddaru Bwrdd Rheoli Menter Gorllewin Sir Gâr. Nodir y cyflwyniadau isod ac mae yna ddolen i'r cyflwyniad islaw.

- Cymraeg a'ch Busnes - Sefydliadau ar gyfer neud fwy o ddefnydd o'r Gymraeg – cyfle i hyrwyddo'r cynllun 11.04.21
- Rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc Sir Gâr 22.04.21
- Fforwm ieuenctid Menter Gorllewin Sir Gar 24.03.21 a 25.11.21
- Fforwm ieuenctid Menter Dinefwr 14.04.21


Yn ogystal â'r cyflwyniadau uchod, i ni wedi cyflwyno ac anfon y cyflwyniad ar e-bost at ysgolion a phartneriaid gan ddefnyddio rhaglen Flipsnack.




## Cyflwyniadau i Benaethiaid Ysgolion Uwchradd Sir Gâr

Cafwyd y cyfle i gyflwyno'r cynllun i benaethiaid Ysgolion Sir Gâr dros gyfnod o 3 sesiwn rhithiol. Gweler dolen i'r cyflwyniad islaw sydd yn cynnwys demo i brototeip 1 o'r cwis sgiliau a'r wefan.

- Cyfarfod Partneriaeth Addysg Cymraeg Cyngor Sir Gâr 13.10.2021
- Cyfarfod Clwstwr Taf Myrddin 14.10.2021
- Cyfarfod Clwstwr Llanelli 5.11.2021




Gweler dolen i'r cyflwyniad islaw sy'n cynnwys demo i brototeip 1 o'r cwis sgiliau a'r wefan.



## Beth i ni wedi ei ddysgu

Fel tîm, yr ydym wedi manteisio ar gyfleoedd dysgu ar-lein yn cynnwys cwrs Cynhyrchu Cyfryngau Uwch Prifysgol Cymru Aberystwyth, ble wnaethom astudio'r modiwlau Cynhyrchu Cyfryngau Uwch, Datblygu'r We, a Diwylliannau Creadigol sydd wedi ein galluogi i wella a datblygu sgiliau digidol. Wnaethom hefyd cwblhau Cymhwyster Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl sydd wedi ein galluogi i ddeall mwy am salwch iechyd meddwl sydd wedi effeithio ar nifer o bobl ifanc yn ystod y pandemig. Mae Atodiad B yn cynnwys y rhestr o'r 39 sesiwn hyfforddi yr ydym wedi manteisio ar fynychu yn ystod 2021. Gan fod y rhan helaeth o'r hyfforddiant yma wedi ei gynnig yn rhad ac am ddim nid ydym wedi defnyddio cyfan o'r cyllid Cronfa Gymunedol y Loteri a oedd wedi ei neilltuo ar gyfer datblygu sgiliau. Er byddwn yn cychwyn ar hyfforddiant Mentora ILM gan gwmni Portal yn y flwyddyn newydd a fyddwn yn talu am dderbyn y cymhwyster yma.

## Adborth pobl ifanc a sefydliadau

Yr ydym yn gwerthfawrogi ac annog adborth gonest pobl ifanc a sefydliadau er mwyn parhau i wella ar gynnwys ein hadnoddau a sesiynau. Dyma rhai sylwadau pobl ifanc ac athrawon partneriaid a sefydliadau am wasanaeth cynllun Profi yn ystod 2021:


"I will be sharing your videos with the team as they are amazing and really good resource to use so thank you for pointing me in the direction of them 😊" - Amber Daniels Cynllun gwella Sgiliau Byd Gwaith Cyngor Sir Gâr.

Helo Sioned

Mae hwn yn ffantastig. Mae gen i nifer o weithgareddau yn dod lan gan gynnwys ffair gyrfaoedd a sesiwn gyda phlant ysgol. Bydd y fideo yn ffito mewn i fy nghyflwyniadau yn dda.

Diolch eto

Neges fach i holi cwestiwn – dw i wedi cynnwys y fideo'r Fenter 'Taith yr Iaith' mewn pwerpwynt at ddefnydd mewnol yr ysgol. Mae cais wedi dod i rannu adnoddau ar draws ysgolion Consortiwm Erw yn y De Orllewin. A fyddech chi'n hapus i fi gynnwys y fideo yn y pwerpwynt neu na? Meinir Jones (Adran Gymraeg, Bryn Tawe).



## Adborth ychwanegol gan Athrawon am gynllun Profi

“Thank you for the support regarding the mock interviews. Ysgol Gyfun Emlyn has benefited from the support of Menter Sir Gar Profi Programme providing both valuable digital resources as well as regular support with Mock interviews and applications. During a difficult year of online learning the Team at Menter Sir Gar have produced a wide range of resource to support the online learning of 3 BTEC workskills groups, 1 BTEC sport group as well as the Welsh Bac and Business studies programmes at Ysgol Gyfun Emlyn.”

“The range of digital resources have been created by the team to fit into a bi-spoke programme during registration periods for Year 10 & 11 pupils to support them with job applications, finding work and create a CV and Cover letter. They are also involved in promoting local work-related opportunities and looking into local digital field trips to support learners in the current Covid restrictions.”

“The Profi team at Menter Sir Gar have completed a series of mock interviews, initially with a BTEC Sport group this summer term. The interviews took place via Microsoft Teams and each student was given digital and verbal feedback on their performance in each interview. The team was able to provide digital recordings for students and teachers to review in order to support pupils refine interview technique and improve their application process. This has continued with a BTEC Work Skills group, carrying out both a telephone interview and video interview.”

“A number of pupils taking part in the interviews were very nervous about participating in interviews. The students were put at ease with the skills and professionalism of the Team at Menter Sir Gar. Feedback from the process has been very positive and has given pupils confidence in future applications. Also, the quality of the feedback and evidence interviews has been used to support pupils in their BTEC assignments.”

“Can I thank you for the Mock interviews, Digital resources and support during lockdown. It has been a challenging year, without your support it would have been impossible to achieve what we have with both the Work Skills, BTEC Sport and supporting the Year 11 Pastoral Programme.”

“The support from Menter Sir Gar has been extremely valuable enabling pupils to complete coursework linked to future vocations and prepared them for the applications process.”

“Hoffwn ddiolch yn fawr i ti am dy neges. Rwyf wedi rhannu’r fideo ar wydnwch gyda’r 6ed cyn gwyliau’r Pasg - defnyddiol tu hwnt wrth iddynt ddechrau ar y gwaith o adolygu a pharatoi at asesiadau dros y Pasg felly diolch yn fawr i chi am hyn.


Fe fyddaf yn rhannu’r wybodaeth am y tudalen Instagram newydd ar ddydd Llun pan fyddwn yn dychwelyd i’r Ysgol. Oes linc gyda chi fydd yn mynd yn syth i’r tudalen Instagram? Os oes gallaf rannu hyn hefyd er mwyn annog y myfyrwyr i ddilyn y tudalen. Diolch mawr, Elen.”


"Hoffwn ddiolch yn enfawr i chi a'r holl dîm am gynnal y sesiynau i ni'r wythnos yma. Rwyf wir yn ei werthfawrogi. Roedd y sesiynau yn grêt ac yn rhoi llawer o wybodaeth ddefnyddiol ac adnoddau i'r myfyrwyr. "

"Fe wnaethon nhw wir fwynhau'r kahoot ddoe - aeth pethau'n gystadleuol iawn 'ma."

"Gair bach i ddiolch o galon i'r ddwy ohonoch am sesiwn wirioneddol ddefnyddiol neithiwr. Roedd yn sesiwn llawn gwybodaeth, yn fywiog a phroffesiynol. Fel wedes i, roedd hi'n amlwg eich bod yn frwdfrydig iawn am y gwaith, sydd mor braf i'w weld."

## Ffurflenni adborth Sesiynau Cyflwyno CV



## Beth wnes ti hoffi neu dysgu o'r sesiwn heddiw? What did you enjoy or learn from today's session?

- I learned how to structure an effective CV, with the relevant information.
- **I enjoyed the quiz because I had a chance to see which skills I have and which ones I need to improve. I also enjoyed the run through of what to include on your CV.**
- I enjoyed taking part in the quiz, it was different and quite effective although at the end I would also like percentages with the circles. Although sometimes I felt that both sides of the slide applied to me, so I left in the middle.
- **Roedd y cwis wedi fy helpu i ddarganfod fy nghryfderau a fy ngwendidau er mwyn fy helpu yn y dyfodol.**
- **Hoffais y cwis i ddarganfod fy sgiliau ar gyfer byd gwaith a'r fideos.**
- Fe wnes i fwynhau siarad a Rhian o Barcud.
- I understood the best ways to go about an interview.
- I found the section on writing the CV really useful.
- I learned how to structure a CV and what information is needed.
- I learnt what's important to put in your personal profile.


## Pa elfen o'r sesiwn wnes ti ei fwynhau lleiaf? Which element of today's session did you enjoy the least?

- Personal profile part, I felt it was the least enjoyable as we've already learnt a fair bit about it (6)
- The limited questions on the quiz.
- Being online
- It seemed like it dragged on but it may be due to the circumstances of having to do it through teams.
- Long periods of talking
- How long it was, it was a lot of information.
- Bit repetitive (2)
- CV information (2)
- Nothing (11) 'A very well presented and informative session

## Ffurflenni Adborth ar y Cwis Sgiliau

**5. Sut byddet yn graddio ein Cwis Sgiliau Byd Gwaith ar yr elfennau canlynol? How would you rate our World of Work Skills Quiz on the following elements?**

Number of responses: 49




## Beth byddet yn newid am ein Cwis Sgiliau? What would you change about our Skills Quiz?

- Perhaps giving our results in percentages as opposed to charts would have been more concise and easier to understand. **x23**
- The display of the results / Defnyddio ffordd gliriach o arddangos canlyniadau e.e. canrannau, graffiau neu siartiau / Rhoi canran neu tabl lliw I wybod be ma'r lliwiau yn cynrychioli **x5**
- Nothing **x3**
- Make it more intuitive.
- Make sure grammar is checked over as there was a grammar mistake (sees not see's)
- Less sliders
- Add more questions to gain a more accurate result / Add more questions so that the result would be more valid and justified / Fwy o gwestiynau manwl **x8**
- Some of the questions I felt like I was both (the create one yet I would also consider myself realistic) so it was hard to choose a side.
- Ein bod yn gallu defnyddio yn rhwydd ar ffôn symudol.


## Pa fath o sesiynau hoffet ti ei weld gyda ni yn y dyfodol er mwyn gwella dy sgiliau byd gwaith? What kind of sessions would you like to see from us in the future to further develop your skills for the world of work?


- Sessions that teach about other essential things such as managing finances whilst in university would be helpful.
- To learn more about apprenticeships and how to apply **x2**
- How to find a job.
- Mwy o tipiau cyfweliadau / Work on interviews / Sgiliau / Proses cyfweld **x4**
- More quiz sessions to make sure students don't lose their focus / More quizzes and activities **x3**
- More interaction / mwy ymarferol **x3**
- Sut i greu CV da
- Show more examples of different CV's
- More about work experience / voluntary work in the area x3
- Maybe more insight on how to develop our skills like communication and teamwork.
- Realistic situations that might happen in the workplace and how to overcome them
- Face to face sessions
- Sesiynau a fydd yn profi ein sgiliau
- Talking about a gap year to volunteer or work
- Sessions about life in work of university
- Similar ones to today, although possibly weighted more on the cv/personal statement and how to stand out i.e. every student will note the same sort of qualities.
- Sesiynau sy'n canolbwyntio ymhellach ar y gwahaniaeth rhwng datganiad personol, CV a llythyr cais
- Pethau ymarferol ar sut i ymdopi yn y dyfodol

## Unrhyw sylwadau bellach | Any further comments

- No, I really enjoyed it THANK YOU
- Thank you for the session!
- Diolch am eich amser
- Thank you for your time and the sessions today 😊

## Ffurflenni adborth sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith



## Beth wnes ti hoffi neu dysgu o'r sesiwn heddiw? What did you enjoy or learn from today's session?

- **Kahoot quiz x15**
- Nes i fwynhau'r cwis ar y diwedd ac hefyd dysgais llawer o ffeithiau gwahanol am yr iaith.
- Roedd y Kahoot yn effeithiol a hwyl ac wedi annog pawb i gymryd rhan a chyfrannu.
- Fe wnes i mwynhau gweithgaredd Kahoot er mwyn dangos ac atgoffa ein hunain o ffeithiau am y iaith Gymraeg.
- Roedd yr wybodaeth yn ddiddorol ac yn bwysig ac mi oedd defnyddio'r wybodaeth hynny yn hwyl yn ystod y cwis kahoot.

- Learning Welsh history / Clywed am yr hanes x8
- Learnt the number of people in Wales who speak Welsh / Y nifer o bobl sydd yn gallu siarad Cymraeg x3
- How useful being bilingual can be / The advantages of being bilingual / Y wahanol cyfleoedd mae bod yn ddwyieithog yn gallu cynnig x5
- Learnt about the importance of the Welsh language / Welsh is very important and useful / Pwysigrwydd yr iaith / Bod siarad Cymraeg yn defnyddiol x4
- What opportunities there are within Wales
- Learnt how diligently people are working to improve the number of Welsh speakers
- How interactive the sessions are.
- Wedi mwynhau clywed wrth bobl sydd wedi cael gyrfa allan o'r Gymraeg.
- I enjoyed watching the videos and learning new information.
- I learnt more about the Welsh Not and its meaning.

## Pa elfen o'r sesiwn wnes ti ei fwynhau lleiaf? Which element of today's session did you enjoy the least?

- Too long of a session x3
- Some of the history of the Welsh language x2
- Yr elfen llai 'interactive' ond ar y cyfan wedi mwynhau!
- Nothing x5

## Pa fath o sesiynau hoffet ti ei weld gyda ni yn y dyfodol er mwyn gwella dy sgiliau byd gwaith? What kind of sessions would you like to see from us in the future to further develop your skills for the world of work?

- More activity filled sessions x7
- More about how to find jobs/careers

- A guide on what to do after finishing a degree.
- An in depth session of what to do and where to apply once you have completed your degree.
- More about the opportunities of being bilingual.
- More about how others use it (yr iaith Gymraeg o fewn byd gwaith?)
- Ones that include videos that it's not used predominately within the session.
- Pethau I helpu gyda ymgeisio am swyddi/prifysgol
- Rhai sy'n rhoi mwy o help am pwysigrwydd yr iaith amser mynd i Brifysgol (cynnwys mwy o elfennau y Coleg Cymraeg o bosib?)

## Unrhyw sylwadau bellach | Any further comments

- Thank you for an informative session!
- Wedi mwynhau!
- Diolch am eich amser 😊

## Profiad Gwaith

Yr ydym wedi parhau i gydweithio gyda Gyrfa Cymru i ddatblygu adnoddau am ymweliadau cyflogwyr a fydd o gymorth i ddisgyblion. Ynghyd â thrafod gydag Awdurdod Addysg Sir Gâr sut gallwn gyd weithio i gynllunio profiadau gwaith diogel i bobl ifanc i ddatblygu sgiliau. Yn ddiweddar yr ydym wedi cychwyn thrafodaeth gyda Speakers for Schools sydd yn cynnig profiadau gwaith rhithiol ac ymweliadau cyflogwyr rhithiol yn Lloegr.

Rydym wedi parhau i ddatblygu basdata i gofnodi ein gweithgaredd. Y bwriad yw bydd y wefan yn crynhoi data pan fydd yn fyw er mwyn paratoi adroddiadau a mesur effaith. Mae'r wybodaeth yma yn llunio Adroddiad Blynyddol sydd yn dangos graffeg o sut mae sgiliau byd gwaith y bobl ifanc wedi gwella.

Byddwn yn parhau i werthuso'r cynllun ac yn gwneud newidiadau i'r cynllun yn ôl adborth ysgolion y bobl ifanc a'r cyflogwyr a sefydliadau sydd wedi bod ynghlwm er mwyn cadw gwella ein gwasanaeth.

## Cyllid Cronfa Gymunedol y Loteri

**Dogfen cyllid wedi ei atodi gyda'r Adroddiad yn Atodiad C**